

## **Ysgoloriaethau a Chynllun Mentora Llenyddiaeth Cymru**

### **Adroddiad Cadeirydd y Panel Ysgoloriaethau 2019**

Hoffwn yn gyntaf ar ran y Panel Ysgoloriaethau a Chynllun Mentora Llenyddiaeth Cymru ddiolch i Reolwr Datblygu Awduron Llenyddiaeth Cymru, Petra Bennett am ei harweiniad clir a'i gwaith cefnogol trylwyr ar hyd y broses o ddyfarnu'r Ysgoloriaethau eleni. Bu'n flwyddyn anodd i Llenyddiaeth Cymru gyda chryn ansicrwydd ynglŷn â dyfodol y Cynllun Ysgoloriaethau ar ei ffurf bresennol, ac felly dylai'r ffaith fod hon yn flwyddyn eithriadol o llwyddiannus i'r Cynllun - o ran nifer yr ymgeiswyr, safon y ceisiadau ac effeithiolrwydd y drefniadaeth - fod yn destun balchder i staff ymroddedig a dawnus Llenyddiaeth Cymru. Hyderaf y bydd gweinyddiaeth y cynlluniau yr un mor effeithlon, strategol ac ystwyth y flwyddyn nesaf dan orchwyliaeth Petra a'r tîm.

Hoffai'r Panel hefyd nodi ein diolch i'r Loteri Genedlaethol sydd, trwy Gyngor Celfyddydau Cymru yn ariannu'r Ysgoloriaethau. Ar gyfnod economaidd pryderus, gyda straeon wythnosol bron am awdurdodau lleol yn torri cyllidebau ar gyfer prosiectau a lleoliadau celfyddydol, mae'r nawdd ariannol a chefnogaeth ymarferol sy'n cael ei gynnig drwy'r Cynllun Ysgoloriaethau a Mentora yn bwysicach nag erioed i ddiwylliant Cymru.

Wedi cyflwyniad a gweithrediad nifer o newidiadau i'r broses o ddyfarnu Ysgoloriaethau y llynedd, roedd yn galonddid i weld bod y pwyslais ar annog llenorion i wneud cais am gefnogaeth ar adeg allweddol yn ystod eu datblygiad celfyddydol yn un sy'n effeithiol ac yn llwyddiannus. Cafwyd prawf o hyn yn y cynnydd eto eleni yn nifer yr awduron newydd a ymgeisiodd am gefnogaeth ac yn y ffaith i gymaint hefyd ymgeisio ar gyfer Ysgoloriaeth Awdur Newydd, a'r Cynllun Mentora, gyda'r cyfle o gael lle ar gwrs preswyl yng Nghanolfan Ysgrifennu Tŷ Newydd a sesiynau un-i-un yn amlwg yn cael ei werthfawrogi gan lenorion Cymru.

Derbyniwyd cyfanswm o 153 o geisiadau ar gyfer y ddau gynllun datblygu awduron, sef Ysgoloriaethau, a'r Cynllun Mentora. Cafwyd 131 cais ar gyfer Ysgoloriaeth Awdur, 7 cais ar gyfer y Ysgoloriaeth Cefnogi, a 15 cais ar gyfer y Cynllun Mentora. Gwelwyd cynnydd ers y llynedd yn nifer y ceisiadau gan awduron newydd ar gyfer Ysgoloriaethau (89) a saith o'r rhain gan awduron a oedd yn 25 mlwydd oed neu'n iau. Roedd y mwyafrif helaeth o'r

ceisiadau gan awduron nad oedd wedi derbyn unrhyw gefnogaeth yn flaenorol drwy gyfrwng Ysgoloriaeth, gan brofi bod y Cynllun yn llwyddo cyrraedd a datblygu doniau newydd, ar gamau amrywiol o'r yrfa ysgrifennu. Wedi ymateb braidd yn siomedig y llynedd o ran ceisiadau gan lenorion â gwaith ar y gweill yn y Gymraeg, gwelwyd ffrwyth ymgyrch farchnata a hyrwyddo llwyddiannus Llenyddiaeth Cymru, gyda nifer y ceisiadau gan awduron Cymraeg wedi codi'n sylweddol eleni. Bu cynnydd hefyd yn y nifer o ymgeiswyr o gefndiroedd ethnig, ac awduron a oedd yn nodi eu bod o gefndir dosbarth gweithiol.

Tasg y Panel oedd dyfarnu hyd at ugain o Ysgoloriaethau Awduron gwerth £3000 yr un, gyda chwech o'r ugain Ysgoloriaeth wedi eu clustnodi ar gyfer awduron newydd, ac un o'r rheiny ar gyfer awdur o dan 25 mlwydd oed. Yn ogystal â'r Ysgoloriaethau, bu gennym hefyd geisiadau ar gyfer y Cynllun Mentora i'w dyfarnu, gyda 10 lle ar y cynllun; a cheisiadau am Ysgoloriaethau Cefnogi er mwyn cynorthwyo awduron sydd ag anableddau neu broblemau iechyd. Roedd y Panel yn falch o fedru cefnogi ceisiadau am gymorth o'r fath eleni gan ddau awdur hynod addawol a hoffwn gymryd y cyfle i annog mwy o awduron sydd angen cefnogaeth arbenigol neu benodol i ymgeisio am gyllid Ysgoloriaeth Cefnogi er mwyn sicrhau hyd yn oed yn fwy o amrywiaeth ymhlith ein cymuned lenyddol.

Lluniwyd rhestr hir o 53 o ymgeiswyr Ysgoloriaeth yr oedd eu gwaith yn arddangos dawn neu botensial o'r safon uchaf ac roedd y Panel yn gytûn bod nifer o'r ceisiadau a ddaeth i law eleni yn rhai eithriadol a hynny gan awduron profiadol yn ogystal â rhai newydd. Er bod rhagoriaeth llenyddol yn brif faen prawf wrth ddyfarnu'r Ysgoloriaethau, roedd llywio'r broses hynod gystadleuol hon yn her wirioneddol eleni, a'r trafod a thafoli yn ddwys ac yn estynedig ar adegau. Mae'r Panel yn llwyr ymwybodol o'r siom sy'n cael ei achosi i lenorion galluog ac addawol wrth i ni orfod gwrthod ceisiadau am gefnogaeth yn sgil cyfyngiadau ariannol y gyllideb sydd ar gael. Yn gymysg gyda'r wefr o gael cip ar waith o safon byd, ar olwg newydd ar genre neu egni newydd heintus, mae poen meddwl a rhwystredigaeth cyson o beidio a medru gwobrwyo ceisiadau haeddiannol o ganlyniad i ddiffyg cyllid. Rydym felly'n erfyn ar y rhai na chafodd eu gwobrwyo eleni i beidio colli ffydd ac i barhau i ddatblygu eu syniadau a'u sgiliau ymhellach. Roedd yn braf medru gwobrwyo un awdur a ymgeisiodd eto wedi colli allan o drwch blewyn y llynedd, a'r sglein pellach ar ei waith eleni wedi sicrhau llwyddiant iddo. Daliwch ati!

Roedd yr elfennau hynny sy'n dylanwadu cymaint ar ein disgwrs cymdeithasol a gwleidyddol ar hyn o bryd - agweddau ar hunaniaeth, #MeToo, gwleidyddiaeth dosbarth, ansicrwydd Brexit ac effaith twf poblyddiaeth y Dde - yn amlwg iawn o fewn themâu y gwaith a ddaeth i law, a nifer o'r awduron yn ymdrin â'r pynciau hyn mewn modd dychmygus a deallus. Archwiliwyd anabledd, profiad lleiafrifoedd, rhywedd ac amddifadedd economaidd mewn ysgrifau, gwaith ffeithiol greadigol, cerddi, nofelau a straeon byrion. Roedd safon y nifer fawr o geisiadau barddoniaeth a gyflwynwyd wrth fodd y Panel - a gwaith un bardd ifanc yn llwyddo "mynd â gwynt" y Prifardd ar ein Panel, tra roedd cyffro mawr i'w deimlo wrth glywed tinc newydd yng ngwaith Prifardd wedi saib hir o dawelwch. Bu hefyd enghreifftiau o lenyddiaeth plant ac oedolion ifanc o'r safon uchaf, gyda phump awdur yn derbyn Ysgoloriaeth am waith a fydd gobeithio yn ysbrydoli'r genhedlaeth iau o ddarllenwyr. O gofio casgliadau adroddiad Dr Siwan Rosser ar ddiffyg llyfrau gwreiddiol i blant a phobl ifanc yn y Gymraeg, byddai wedi bod yn dda gweld mwy o geisiadau Cymraeg yn y genres hynny. Ni chafwyd yr un cais Cymraeg o fewn genre Llenyddiaeth Plant.

Hoffwn longyfarch y 26 awdur a wobrwyyd eleni, rhai yn awduron profiadol sydd am gymryd cam i gyfeiriad newydd ac eraill yn awduron newydd a fydd yn meithrin hyder ac yn cael cyfle i ddatblygu eu crefft yn sgil eu llwyddiant, gan obeithio y bydd y cymorth ariannol a'r mentora yn arwain at gynhyrchu gwaith a fydd yn cyfoethogi ein diwylliant. Diolch i bawb a ymgeisiodd ac i'm cyd-banelwyr am eu gofal a'u hangerdd wrth gyflawni eu gwaith. Diolch yn arbennig i Malachy Doyle, Julia Forster a Ceri Wyn Jones sy'n gadael y Panel wedi chwe mlynedd o wasanaeth gwerthfawr.

**Sioned Williams, Ionawr 2019**